



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Department for Environment, Planning and Countryside

Y Prif Swyddog Cynllunio:
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Swyddog y Parc Cenedlaethol:
Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru

Ein cyf: APAA 08/04/109 / (CL03 – 06)

Dyddiad: 25 Ionawr 2006

Annwyl Gyfaill

GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) (DIWYGIO) (CYMRU) 2006: DIWYGIADAU I'R HAWLIAU DATBLYGU A GANIATEIR YN RHAN 1·H A RHAN 25

1. Diben y llythyr hwn yw tynnu eich sylw at yr is-ddeddfwriaeth newydd sy'n diwygio'r hawliau datblygu a ganiateir yn Atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 1995 (GDPO) ar gyfer:
 - a) gosod, addasu neu newid antena lloeren ar dŷ annedd neu o fewn cwrtil tŷ annedd (Rhan 1·H); a
 - b) datblygiadau telegyfathrebu eraill (Rhan 25).

Byddwn yn anfon copi atoch maes o law o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2006, a fydd yn gweithredu'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir yng Nghymru o 31 Ionawr 2006 ymlaen. Yn y cyfamser, rwyf wedi amgáu copi o'r drafft "terfynol" er gwybodaeth i chi.

2. Er bod y Cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ar amodau'r gorchymyn, dim ond y Llysoedd all ddehongli'r gyfraith gydag awdurdod.
3. Cyflwynwyd y darpariaethau yn y GPDO ar gyfer antenâu ym 1991, a chawsant eu diwygio ym 1998 a 1999. Maent yn berthnasol i ddysglau lloeren yn unig. Ers hynny, gwelwyd datblygiadau technolegol arwyddocaol ee datblygiad band eang. Bellach, defnyddir amrywiaeth eang o gyfarpar i gyfathrebu'n electronig, ond nid yw rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr hawliau

datblygu a ganiateir. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir, fel y'u diwygiwyd, yn diweddarau'r GPDO ac yn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu rhwng technolegau.

4. Fodd bynnag, er bod yn rhaid rhoi rhywfaint o ryddid i ddeiliaid tai wrth bennu'r cyfyngiadau ar gyfer datblygiadau a ganiateir, rhaid diogelu'r amgylchedd hefyd. Nod y cyfyngiadau ar yr hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas ag antenâu yw diogelu'r amgylchedd rhag antenâu dianghenraid o fawr neu anghydnaws, neu rai sydd wedi'u gosod mewn safleoedd gwael neu anaddas. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd dynodedig fel ardaloedd cadwraeth ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Diffiniad o antena

5. Dylid trin unrhyw gyfeiriad at 'antenâu' fel cyfeiriad at bob math o antena ficrodon¹, fel y'u diffinnir yn Erthygl 1(2) o'r GPDO. Mae'r term hwn yn cyfeirio at antenâu microdon ac antenâu lloeren². Yn gyffredinol, nid yw erialau teledu confensiynol (gan gynnwys eu gosodiadau a'u polion) yn bodloni'r diffiniad o ddatblygiad, ac felly nid oes angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer gan eu bod yn dilyn yr egwyddor *de minimis*³.

Ardaloedd Dynodedig

6. Mae Ardaloedd Dynodedig yn cyfeirio at ardaloedd cadwraeth, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol. Cânt eu disgrifio yn Atodlen 1, Rhan 2: Erthygl 1(5) o'r GPDO (a chyfeirir atynt yn aml fel 'tir Erthygl 1(5)') fel tir y mae angen eu diogelu ymhellach rhag effaith gweledol andwyol. Mae cyfyngiadau arbennig ar leoli antenâu ar adeiladau mewn ardaloedd dynodedig.

Adeiladau Rhestredig

7. Ceir rheolaethau ar wahân ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig. Fel arfer, rhaid cael caniatâd adeilad rhestredig i osod antenâu ar adeilad rhestredig.

¹ Mae'r term 'microdon' yn cyfeirio at y rhan o'r sbectrwm radio sy'n uwch na 1,000 MHz.

² Mae dysglau lloeren hefyd yn defnyddio amleddau microdon, ond cânt eu trosglwyddo o'r lloeren geo-orbitol yn hytrach nag yn ddaearol; mae ganddynt olwg nodweddiadol ac mae'n rhaid eu gosod o fewn cylch gweld penodol.

³ Mae *De Minimis* – byrfodd '*de minimis non curat lex*' – yn wireb gyfreithiol sy'n golygu'n fras "the law does not concern itself with trifles". Mae'n egwyddor gyfreithiol a ddefnyddir gan y llysoedd ac nid yw, fel y cyfryw, yn cael ei disgrifio na'i thrafod yn y Deddfau Cynllunio. Caiff ei defnyddio pan fo tor-rheol dibwys yn cael ei dynnu i sylw'r llys, ond ei fod mor ddibwys fel na fyddai'n werth mynd i'r afael ag ef. Mater i'r llysoedd yw penderfynu beth sy'n bodloni'r egwyddor *de minimis* ar sail ffeithiau'r achos. Nid oes gan Adrannau Cynllunio'r Awdurdodau Lleol, na'r Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i benderfynu a ddylid cymhwyso'r egwyddor ai peidio, ac ni ellir rhagweld beth fydd penderfyniad y llys.

Nifer yr antenâu

8. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn y GPDO, fel y'u diwygiwyd, yn caniatáu dau antena ar adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder (gan gynnwys tai annedd) a phedwar ar adeiladau sy'n fwy na 15 metr o uchder.

Maint yr antenau

9. Ar gyfer adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder (gan gynnwys tai annedd), mae'r GPDO yn caniatáu un antena hyd at 100cm o hyd; ac os bwriedir gosod ail antena gall fod hyd at 60cm o hyd. Ar gyfer adeiladau sy'n 15 metr neu fwy o uchder, gellir gosod antenâu sydd hyd at 130cm o hyd. Os bwriedir gosod antena ar simneiau, rhaid iddynt beidio â bod yn fwy na 60cm o hyd ar unrhyw adeilad.
10. Dynodir maint yr antenâu yn ôl eu capasiti ciwbig a'u hyd (dimensiwn llinellol). Hynny am fod nifer o antenâu'n bodoli erbyn hyn sydd â phroffil tri dimensiwn mwy amlwg na dysglau lloeren er enghraifft. Y capasiti ciwbig mwyaf a ganiateir yw 35 litr.
11. Mae'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir yn cynnwys newidiadau i'r manau lle gellir lleoli antenâu. Ar adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder (gan gynnwys tai annedd), caniateir i antenâu fod yn uwch na rhan uchaf y to os oes gan yr adeilad simnai. Mewn achosion o'r fath, gall yr antenâu fod hyd at 60cm yn uwch na'r to neu hyd at uchder y simnai, pa un bynnag sydd isaf. Ar gyfer adeiladau sy'n fwy na 15 metr o uchder, caniateir i antenâu fod hyd at 300cm yn uwch na rhan uchaf y to. Ym mhob achos, ni chaniateir i antenâu fod yn uwch na'r simnai. Ceir cyfyngiadau pellach ar gyfer pob math o adeilad sydd wedi'i leoli ar dir Erthygl 1(5). Ni chaniateir gosod antena ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir eu gweld o'r ffordd. Mae'r gofyniad mewn perthynas ag amlygrwydd yn sicrhau nad yw'r cyfyngiadau'n cael eu cymhwyso'n ddiangen.
12. Mae **Atodiad A** yn disgrifio'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir ar gyfer antenâu a osodir ar tai annedd a thai annedd ar dir Erthygl 1(5) (Rhan 1·H).

Mae **Atodiad B** yn disgrifio'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir ar gyfer antenâu a osodir ar adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder (ac eithrio tai annedd) ac adeiladau o'r fath ar dir Erthygl 1(5) (Rhan 25B).

Mae **Atodiad C** yn disgrifio'r hawliau datblygu diwygiedig a ganiateir ar gyfer antenâu a osodir ar adeiladau sy'n fwy na 15 metr o uchder, ac adeiladau o'r fath ar dir Erthygl 1(5) (Rhan 25A).

13. Bydd canllawiau pellach ar arfer da ar gael ym mhamffled Llywodraeth y Cynulliad, *Canllaw Cynllunio ynghylch Gosod Antenâu*, sy'n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd. Byddwn yn anfon copïau o'r pamffled diwygiedig at bob awdurdod cynllunio lleol maes o law a bydd copïau pellach ar gael gan Wasanaeth Llyfrgell a Chyhoeddiadau'r Cynulliad.

Yn gywir

Rosemary Thomas
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio

Atodiad A

Datblygu a Ganiateir o dan fersiwn ddiwygiedig Rhan 1-H ar gyfer Antenâu ar Dai Annedd

Disgrifir y rheoliadau sy'n ymwneud ag antenâu ar dai annedd yn y tabl canlynol:

Nifer yr antenâu	Caniateir hyd at 2 antena
Maint yr antenâu	<p>Gall un antena fod hyd at 100cm o hyd.</p> <p>Os bwriedir gosod 2 antena, gall un fod hyd at 100cm o hyd; ond rhaid i'r llall fod hyd at 60cm o hyd.</p> <p>Rhaid i antenâu a osodir ar simneiau fod yn 60cm o hyd.</p> <p>Ni ddylai unrhyw antena fod â chapasiti o fwy na 35 litr.</p>
Cyfyngiadau ar leoliad yr antena	<p>Ar dai annedd sydd â simnai: ni ddylai'r antenâu fod mwy na 60cm yn uwch na rhan uchaf y to, neu'n uwch na rhan uchaf y simnai, pa un bynnag sydd isaf.</p> <p>Ar dai annedd sydd heb simnai: ni ddylai'r antenâu fod yn uwch na rhan uchaf y to.</p> <p>Ni ddylai'r antenâu fod yn uwch na rhan uchaf y simnai.</p>
Cyfyngiadau ar dir Erthygl 1(5)	Ni chaniateir gosod antena ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir eu gweld o'r ffordd.

Atodiad B

Datblygu a Ganiateir o dan fersiwn ddiwygiedig Rhan 25B ar gyfer Antenâu ar Adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder

Disgrifir y rheoliadau sy'n ymwneud ag antenâu ar adeiladau sy'n llai na 15 metr o uchder (ond nid tai annedd) yn y tabl canlynol:

Nifer yr antenâu	Caniateir hyd at 2 antena
Maint yr antenâu	<p>Gall un antena fod hyd at 100cm o hyd.</p> <p>Os bwriedir gosod 2 antena, gall un fod hyd at 100cm o hyd; ond rhaid i'r llall fod hyd at 60cm o hyd.</p> <p>Rhaid i antenâu a osodir ar simneiau fod 60cm o hyd.</p> <p>Ni ddylai unrhyw antena fod â chapasiti o fwy na 35 litr.</p>
Cyfyngiadau ar leoliad yr antena	<p>Ar adeiladau sydd â simnai: ni ddylai'r antenâu fod mwy na 60cm yn uwch na rhan uchaf y to, neu'n uwch na rhan uchaf y simnai, pa un bynnag sydd isaf.</p> <p>Ar adeiladau sydd heb simnai: ni ddylai'r antenâu fod yn uwch na rhan uchaf y to.</p> <p>Ni ddylai'r antenâu fod yn uwch na rhan uchaf y simnai.</p>
Cyfyngiadau ar dir Erthygl 1(5)	Ni chaniateir gosod antena ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir eu gweld o'r ffordd.

Atodiad C

Datblygu a Ganiateir o dan fersiwn ddiwygiedig Rhan 25A ar gyfer Antenâu ar Adeiladau sy'n fwy na 15 metr o uchder

Disgrifir y rheoliadau sy'n ymwneud ag antenâu ar adeiladau sy'n fwy na 15 metr o uchder yn y tabl canlynol:

Nifer yr antenâu	Caniateir hyd at 4 antena
Maint yr antenâu	Gall pob antena fod hyd at 130cm o hyd. Rhaid i antenâu a osodir ar simneiau fod hyd at 60cm o hyd. Ni ddylai unrhyw antena fod â chapasiti o fwy na 35 litr.
Cyfyngiadau ar leoliad yr antena	Ni ddylai'r antenâu fod mwy na 300cm yn uwch na rhan uchaf y to.
Cyfyngiadau ar dir Erthygl 1(5)	Ni chaniateir gosod antena ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu ffordd ac y gellir eu gweld o'r ffordd.
